# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol, gyda Neil Mosley ac Emmajane Milton


Mehefin 25, 2020.



# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020.




Ceir gwahaniaeth rhwng dysgu o bell ar frys ac addysg ar-lein.


Cafwyd ymagwedd fwy amnewidiol tuag at briodweddau dysgu o bell ar frys, yn y modd pe baech chi wedi arfer â dysgu ystafell ddosbarth neu ddarlith, yna fe fyddech wedi tueddu i amnewid hynny gyda sesiwn tebyg drwy gyfrwng Zoom neu Teams.

Ond mae addysg ar-lein yn ymddangos tipyn yn wahanol gan ei fod yn golygu llawer mwy o gynllunio a llawer mwy o fwriadoldeb na hynny. Caiff ei gyflwyno llai drwy sesiynau byw ac rydym yn symud tuag at y cyfeiriad hwnnw …. Bydd addysgu ar-lein yn ffurfio rhan fawr o’n dyfodol agos ac efallai ein dyfodol pell hefyd.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020.




Gall addysgwyr fod yn anghyfarwydd iawn gyda dysgu ac addysgu ar-lein. Mae'n golygu newid sylfaenol mewn ffordd o feddwl oherwydd ei fod yn ffordd hollol wahanol o addysgu. Felly mae yna rai heriau gwahanol i'w goresgyn yn ogystal â ffyrdd o feddwl sydd angen eu newid ychydig.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020.




Nodwedd o addysg ar-lein yw ei fod lawer yn fwy parhaus a llyfn, ac mae'n llifo'n wahanol. Felly, un o'r rhwystrau cyntaf yn nhermau meddwl am addysg ar-lein yw ystyried sgaffaldiau o'r math hynny.


Dyw hynny ddim i ddweud bod addysg ar-lein yn sydyn reit yn rhywbeth sydd heb ffurf neu heb ei gyfyngu … mae'n wirioneddol bwysig i gael strwythur. Ond mae wedi ei strwythuro mewn gwahanol ffordd - un o'r unedau mwyaf cyffredin hynny o amser mewn gwirionedd wrth i ni feddwl am addysg ar-lein yw'r wythnos. Felly, beth fyddwn ni'n ei wneud mewn wythnos?

Felly'r peth cyntaf yw ei fod lawer yn fwy ystwyth yn nhermau amser ac mae pobl sydd wedi dewis astudio yn y ffordd yma wedi gwneud hynny fel arfer oherwydd eu bod yn dymuno astudio mewn modd hyblyg o amgylch eu holl ymrwymiadau posib eraill. Yn amlwg, mae'r pwynt ynglŷn â hyblygrwydd yn un pwysig ar hyn o bryd oherwydd, er ein bod yn ymddangos fel pe baem yn dod allan o'r cyfnod cloi yn y DG, wyddon ni ddim p'un a fyddwn yn cael y profiad o fod mewn un arall. Felly mae'n rhaid i ni fod yn ystwyth a hyblyg, ac mae pobl yn profi pethau ac amgylchiadau gwahanol sydd yn galw am hynny hefyd.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020




Lleoliad sydd nesaf - mae hwn yn un pwysig iawn, iawn.


Daw'r amgylchedd dysgu digidol, neu'r technolegau, neu'r amgylchedd dysgu rhithwir (beth bynnag fyddwch chi'n ei ddefnyddio yn eich cyd-destun) yn hynod o bwysig yn sydyn iawn - mae'n lleoliad addysg gwirioneddol. Mae'n lleoliad sydd gydradd ag ystafell ddosbarth os ydyn yn meddwl am ddysgu cyfunol - ac mae gan hynny nifer o oblygiadau.

Yn nhermau ymarfer proffesiynol, bod yn gyfarwydd a chael hyder wrth ddefnyddio'r dechnoleg yw'r pethau cyntaf, a'u defnyddio'n lled eang. Mae'n adnabyddus, yn enwedig mewn prifysgol, nad yw'r system rheoli dysgu (LMS) na'r amgylchedd dysgu rhithwir (VLE) yn cael ei ddefnyddio mor eang â hynny o hyd. Caiff ei ddefnyddio'n aml fel math o ychwanegyn i ddysgu wyneb yn wyneb. Mae addysg ar lein ac addysg gyfunol yn dod at ei gilydd mewn ffordd wirioneddol ystyrlon. Daw'r llwyfan dysgu yn rhywbeth llawr mwy na 'storfa, daw yn lleoliad cyfathrebu, o gymuned, o ddysgu dwfn, o drafodaeth. Felly, daw yn wirioneddol bwysig - yn lleoliad o bwys mawr…mewn addysg.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020





Yr un olaf … addysgu. Mae'n siŵr y byddwch yn gyfarwydd gydag addysgu mewn ystafell ddosbarth … bydd llawr o hynny'n awtomatig. Mae'n debyg y byddwch yn gyfarwydd iawn iawn yn y parth hwnnw, byddwch yn gwybod sut mae cyfathrebu gyda myfyrwyr. Yno, fe gewch y cyfle i ddarllen eu hwynebau a'u ciwiau di-eiriau, iaith y corff, a sgwrsio 'nôl ac ymlaen gyda myfyrwyr.

Mae'r cyfathrebu a deialog hwnnw'n ymddangos yn wahanol iawn ar-lein… mewn addysg ar-lein. Oherwydd bod llawer o gyfathrebu yn seiliedig ar destun mae gan hynny nifer o oblygiadau. Oblygiad arall yn nhermau addysgu ar-lein yw ei fod yn aml yn gofyn am fwy o ddylunio a bwriadoldeb. Ceir mwy o gydrannau.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020





Felly, un o’r pethau pwysicaf oll yw rhoi ein hunain yn sefyllfa’r myfyrwyr. Dyw hyn erioed wedi bod mor bwysig o ystyried y pethau mae pobl yn eu profi ar hyn o bryd a’r amseroedd rydym yn byw drwyddyn nhw. Mae’n bwysig i dynnu rhai o’r pethau hyn allan, oherwydd fe allan nhw ein helpu ni yn nhermau meddwl ynglŷn â sut rydych yn addysgu ar-lein, sut mae strwythuro pethau a sut mae dylunio ar gyfer addysgu ar-lein.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020





Anghynefindra yw’r cyntaf. Mae nifer ohonom yn rhannu’r un profiad yma, lle mae popeth yn anghyfarwydd a gall fod yn eithaf anghyfforddus. Ac i ymhelaethu ar y pwynt hwnnw, pe baem yn meddwl am fyfyriwr sydd yn mynd o’r ysgol i’r brifysgol ac yn dod i ddarlith, wel, mae hynny’n anghyfarwydd iddyn nhw. Fyddan nhw ddim wedi gwneud hynny o’r blaen. Ond i raddau helaeth, dyw hwn ddim yn ofnadwy o anghyfarwydd oherwydd fe fyddan nhw wedi arfer ag eistedd gyda’u cyfoedion, wynebu’r blaen, a gwrando ar rywun yn dysgu o’r blaen. Fodd bynnag gydag addysg ar-lein, fe allwch fod yn mewngofnodi i amgylchedd dysgu rhithwir am y tro cyntaf. Gallwch heb fod wedi gweld un erioed o’r blaen. Felly dyna fan cychwyn lle ceir mwy o anghynefindra i fyfyrwyr. Mae gan hynny oblygiadau ar gyfer ein dyluniad a’r modd y byddwn yn croesawu myfyrwyr i’n cyrsiau.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020




Mynediad yw'r peth nesaf - dyma rywbeth gwirioneddol bwysig i'w ystyried. Ar brydiau, byddwn yn rhagdybio pa fathau o dechnoleg all fod gan y myfyrwyr, eu cysylltiadau i'r rhyngrwyd, a'u mynediad at dechnolegau, a'r cynnwys, a'r gweithgareddau gallwch fod yn eu dylunio neu osod ar-lein. Ceir pob math o amgylchiadau. Does gan rhai pobl ddim dyfeisiadau neu fe fyddan nhw'n cael anawsterau yn nhermau lled band. Felly, mae meddwl am faterion yn ymwneud â mynediad a chydraddoldeb yn nhermau mynediad ar gyfer myfyrwyr yn hynod o bwysig.


Gall dysgu ar-lein fod yn brofiad ynysig hefyd - gall deimlo fel pe bai yna ddiffyg cefnogaeth a dim llawer o ymgysylltiad gan yr athro.

Yna, ceir cymhelliad/ymgysylltiad, ac fe allwch ddweud hynny am bob math o addysg. Sut allwn ni gymell a chael ein myfyrwyr i ymgysylltu?  Mae'n rhywbeth heriol iawn. Ond mae moddolrwydd addysg ar-lein yn cynnig heriau penodol ynglŷn â hynny.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020





Rheoli Amser yw'r pwynt olaf. Mae'n her i chi a'r myfyrwyr mewn gwirionedd. Oherwydd ein bod yn sgwrsio ynglŷn â'r syniad yma o amserlen sydd yn cynnig rhythm a strwythur o amgylch gwersi wyneb yn wyneb, neu ddarlithiau neu ddosbarthiadau. Yn sydyn, pe bai'r pethau hynny yn cael eu tynnu i ffwrdd, yna efallai byddai'n debyg i weithio o bell …yn sydyn mae'r math hynny o sgaffaldiau'n diflannu ac mae'n rhaid i chi feddwl yn fwy gofalus am y modd y byddwch yn rheoli'ch amser a'ch hunan ddisgyblaeth. Mae hynny'n sicr yn nodwedd bwysig mewn addysg ar-lein.

Felly dyna ychydig o'r darlun o safbwynt myfyriwr ynglŷn â'r heriau sy'n ei wynebu.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020





Mae angen i ni roi ein hunain yn safle’r myfyriwr pan fyddwn yn dylunio unrhyw fath o ddysgu ar-lein. Felly, y peth nesaf hoffwn i'w rannu gyda chi yw fframwaith a ddefnyddir yn aml mewn addysg ar-lein.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020





Y Fframwaith Ymholiad Cymunedol - dyma fframwaith sydd wedi cael ei ymchwilio'n fanwl gan nifer o ymchwilwyr o Ogledd America. Caiff ei ddefnyddio llawer mewn addysg ar-lein. Yn debyg i nifer o fframweithiau, dyw e' ddim yn berffaith. Ond yr hyn a wna yw helpu rhoi ychydig o gynllun neu ddarlun meddyliol o bethau sydd angen eu hystyried parthed dylunio ar gyfer dysgu ar-lein.

Fel mae'n ei ddweud, ceisio adnabod llond dwrn o bethau hanfodol, casgliad o amodau sydd yn hynod, hynod o bwysig er mwyn cael profiad addysgol llwyddiannus. Felly, y prif agweddau yw presenoldeb cymdeithasol , presenoldeb gwybyddus, a phresenoldeb wrth addysgu ac fe all fod yn fframwaith defnyddiol i chi gael defnyddio os ydych yn meddwl am ail ddylunio eich cyrsiau.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020




Y peth cyntaf hoffwn i drafod yw presenoldeb cymdeithasol a sut olwg fyddai arno yn ymarferol. Sôn am gymuned, ymddiriedaeth, bod yn agored, ac am osod seiliau. Mae hwn er mwyn i fyfyrwyr allu ymgysylltu â'i gilydd gyda chithau, ymgysylltu gyda'r offer dysgu, a theimlo'n gyffredinol gyfforddus yn yr amgylchedd hwnnw er mwyn cael cydlynoldeb.

Tybiaf eich bod yn gwneud llawer o hwn, wyneb yn wyneb heb feddwl amdano - fe wyddoch sut i wneud eich myfyrwyr yn gyfforddus - fe wyddoch sut mae datblygu cyfathrebiad, ymddiriedaeth a chydlynoldeb. Ond efallai ei fod yn fwy anghyfarwydd yn y modd y byddwch yn gwneud hyn ar-lein … ond mewn gwirionedd, mae'n hynod o bwysig oherwydd os nad oes gyda chi'r sylfaen hwnnw, yna bydd rhai o'ch gweithgareddau a'r ffyrdd yr ydych yn dymuno i fyfyrwyr ymgysylltu, fethu'n lân. Weithiau mae pobl yn dweud wrtha i, "Wel, fe wnes i hyn ond wnaeth neb ymgysylltu â hynny." Weithiau, mae hyn oherwydd bod yr amodau hyn a'r gymuned heb gael ei adeiladu neu fod yr amgylchedd heb ei greu. Felly, mae hwn yn agwedd gwirioneddol bwysig o addysg ar-lein. Hoffwn i fynd drwy gwpl o bethau … dyma elfennau o gyngor ymarferol.

Y cyntaf yw, os ydych chi am i fyfyrwyr fod yn agored ac i rannu ac ymgysylltu gyda'i gilydd … allwch chi ddim disgwyl i hynny ddigwydd os nad ydych chi'n fodlon dod â pheth o'ch hunan ac ychydig o'ch personoliaeth i'r cwrs. Gall hynny fod yn heriol iawn oherwydd mae'n ffordd wahanol iawn o gyfathrebu a chyflwyno'ch hun i fyfyrwyr. Un ffordd dda o wneud hyn yw drwy ddefnydd o fideo. Mae fideos yn ffordd wych o ddod â'ch personoliaeth a rhannu a bod yn agored gyda myfyrwyr a cheisio cynhyrchu'r gymuned ac amgylchedd hwnnw yn eich cwrs. Felly meddyliwch ynglŷn â'r defnydd o fideo p'un a yw hynny'n fideo croeso anffurfiol neu ddilyniant o fideos y byddwch yn eu dechrau pan fyddwch yn siarad yn anffurfiol … mae hynny'n ffordd arbennig o dda o ddechrau adeiladu eich presenoldeb a datblygu'r math hynny o berthnasau llawn ymddiriedaeth. Gall olygu peth ymarfer er mwyn dod i arfer â'r fideo ond mae hwn yn ffordd dda iawn o'i wneud. Ges i un tip sef un o'r pethau y gallwch chi eu gwneud yw recordio fideo …lle nad yw wedi ei sgriptio yn ei hanfod ond yna gallwch ddefnyddio offer fel YouTube sydd yn cymryd trawsgrifiad drosoch chi - efallai y byddwch yn dymuno defnyddio'r trawsgrifiad hwnnw wedyn i ffilmio'r golygiad olaf. Felly mae yma elfen o anffurfioldeb, ac os ych chi'n teimlo ychydig yn anghyfforddus yn yr hyn y byddwch yn ei ddweud, neu'n gwneud camgymeriadau (nad sydd o reidrwydd yn fater o bwys ond allai fod yn broblem i rai, neu'n gwneud i bobl deimlo'n anghyfforddus) gallai hynny fod yn ffordd dda o'i wneud. Y pwynt pwysig n hyn yw nad oes angen iddo fod yn berffaith â sglein arno …holl bwrpas hyn yw dod â chithau a'ch personoliaeth i'r cwrs.

Y peth nesaf a thebyg iawn mewn gwirionedd yw tôn eich llais. Credaf oherwydd bod llawer o gyfathrebu yn seiliedig ar destun mewn addysg ar-lein, fe allwch fynd yn ofnadwy o ffurfiol. Felly mae'n werth meddwl am dôn eich llais. Yn sicr gwnaed llawer o ymchwil ar y math o ddefnydd a'r math o emoticonau a phethau tebyg er mwyn cyfleu ochr effeithiol pethau. Mae hynny'n bwysig ofnadwy oherwydd fe allwch lithro'n rhwydd mewn i iaith ffurfiol iawn gan droi'r cwrs yn un sych a mecanyddol. Felly mae hynny'n ystyriaeth bwysig. Rwy'n sicr eich bod yn gwneud hyn lawer yn yr ystafelloedd dosbarth yn nhermau cydnabod a chadarnhau cyfraniadau a wnaed gan y myfyrwyr, cwestiynau a ofynnon nhw neu bethau tebyg. Mae'n hynod o bwysig mewn addysg ar-lein o ystyried y pellter. Felly, os ydych chi'n defnyddio fforymau trafod sydd yn seiliedig ar destun, neu fod gyda chi weithgareddau … os oes gyda chi fideo, yna fe allwch … gydnabod cyfraniadau myfyrwyr ar sail wythnosol. Felly, fe allwch ddweud, roedd gan Sarah gwestiwn ardderchog yr wythnos hon ar y fforwm trafod, ac roedd gan James ateb arbennig o dda.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

### Peth cyngor ar **bresenoldeb cymdeithasol**

1. Byddwch yn naturiol a dewch â'ch **personoliaeth** i'r cwrs
2. Gwiriwch **dôn eich llais**
3. **Cydnabyddwch a chadarnhewch** gyfraniadau myfyrwyr a defnyddiwch eu henwau wrth gyfeirio atyn nhw
4. Modelwch **ymddygiad a moesau** ar-lein
5. **Rhowch gyfleoedd i fyfyrwyr** gynnal deialog cydweithiol, creu mannau i fyfyrwyr gael trafod, cyfnewid syniadau a rhannu profiadau.


Gall meddwl am hynny a chydnabod cyfraniadau myfyrwyr yn fwriadol, eich helpu'n fawr yn nhermau galluogi myfyrwyr i sylweddol eich bod chi yno a'ch bod yn dangos bod ots gyda chi amdanyn nhw, ac mae hynny'n bwysig hefyd. Yn nhermau'r ochr gymdeithasol o bethau, fe fyddwch yn enghraifft iddyn nhw yn y cyswllt hwnnw hefyd … mewn perthynas â'r modd y byddwch yn cyfathrebu ar-lein ac ymddygiad safonol. Dyna ran o'ch rôl hefyd, wrth osod y safon yn nhermau'r dull a ddefnyddiwch i gyfathrebu a'r ymddygiad safonol sy'n gysylltiedig â hynny.

Y peth olaf mewn gwirionedd yw rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr i'w galluogi nhw i drafod a rhannu a dod i adnabod ei gilydd. Mae hwn yn hynod o bwysig. Ceir llawer o drafodaeth ynglŷn â hwn yn nhermau i ba raddau ac i ba faint y dylem ni ddarparu rhywbeth ac i ba raddau y dylem ni ganiatáu myfyrwyr wneud pethau eu liwt eu hunain? A does dim ateb hawdd i hynny. Ond mae rhoi cyfle i fyfyrwyr o fewn y cwrs i rannu a dod i adnabod ei gilydd a thrafod pethau yn bwysig. Bydd myfyrwyr yn anochel yn canfod eu ffyrdd eu hunain o gyfathrebu gyda'i gilydd hefyd. Ond mae hynny'n rhan bwysig o'r agwedd gymdeithasu o'r cyrsiau hyn. Mae'n bwysig hefyd bod hynny wedi ei sefydlu a'i fod ar gael ar-lein hefyd.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020




Y peth nesaf yw presenoldeb addysgu, ac mae hynny'n amgyffred â nifer o bethau. Un o'r themâu sy'n rhedeg drwy bopeth y bues i'n ei ddweud yw cyfathrebu. Os byddwch chi'n cymharu pethau â lleoliad 'stafell ddosbarth … gan egluro beth hoffech chi i fyfyrwyr ei wneud, yna ceir cyfle i ddarllen eu hwynebau a gweld iaith eu cyrff, gan adael iddyn nhw ofyn cwestiynau … ac o ganlyniad efallai y byddwch yn lleisio pethau mewn ffordd wahanol. Ceir mwy o gyfle ar-lein i fyfyrwyr fod yn aneglur ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir ohonyn nhw. Felly mae'n wirioneddol bwysig i feddu ar 'ddealltwriaeth ddwbl' i baratoi **disgwyliadau clir** iawn o'r hyn sydd angen i fyfyrwyr wneud, a bydd hyn o help i chithau hefyd. Os oes yna amwysedd, yna canlyniad hynny yw y byddwch yn derbyn nifer o gwestiynau, ac mae hynny'n cynyddu eich llwyth gwaith yn ddiangen, pe baech chi ond wedi treulio mwy o amser yn egluro. Agwedd pwysig arall yw amser. Fe soniais yn gynharach bod rheoli amser yn heriol a bod hwn yn ffordd hyblyg iawn o astudio. Felly mae rhoi dangosyddion i fyfyrwyr ynglŷn â pha mor hir y dylai pethau gymryd o gymorth mawr. Cyfeirir at hwn yn aml fel amser ar dasg ond mae'n rhan werthfawr o sicrhau bod myfyrwyr yn arfer â dysgu yn y ffordd hon, ac yn cynllunio ac yn rheoli eu disgwyliadau.

**'Gwirio'** ar-lein yw'r peth nesaf. Rwyf o hyd yn ymwybodol pan fyddaf yn sôn am y ffaith bod amser yn llifo'n wahanol ar-lein, a fy mod yn sôn am wirio'n rheolaidd ar-lein, gall godi sawl pryder. Ydy hyn yn golygu fod yn rhaid i fi fod ar-lein ar fy nyfais, yn gwirio pethau, bob awr o'r dydd? Yr ateb yn

fyr yw na, nid dyna mae'n ei olygu. Ond yr hyn a olyga yw bod angen i chi fod yn bresennol yn rheolaidd ac yn gwneud yr hyn fyddech chi'n ei alw yn 'ymyraethau strategol' er mwyn i'ch myfyrwyr wybod eich bod chi yno ac yn cymryd rhan, a'ch bod yn ymgysylltu â'u hastudio a'u dysg. Fe allwch fod eisiau meddwl am strategaethau ar gyfer hynny, p'un a yw'n gwirio am hanner awr y dydd - neu wirio ar gynnydd, ar weithgareddau, ar yr hyn a gafodd ei bostio a phethau o'r natur hynny. Gall meddu ar eich strategaeth eich hun fod yn ddefnyddiol iawn hefyd, fel y gall nodi cyfraniadau hefyd. Dyw gwirio ar-lein yn rheolaidd ddim o reidrwydd yn golygu fod yn rhaid i chi ymgysylltu neu ateb myfyrwyr ar bobo adeg … os ydych mewn sefyllfa lle y gwyddoch fod pedwar neu bump o fyfyrwyr yn gofyn pethau tebyg, fe allech fod eisiau gwneud nodyn o hynny a chyfeirio ato'n hwyrach o flaen y garfan gyfan. Dyna ran o fod yn effeithlon gydag amser oherwydd, yn ddibynnol ar y nifer o fyfyrwyr a sut mae'ch modiwl wedi ei osod, fe allech deimlo wedi eich gorlethu. Credaf mai ffordd dda o feddwl am wirio ar-lein yw … wrth feddwl am leoliad y dosbarth … lle gallai fod gyda chi fyfyrwyr mewn grwpiau, a'ch bod yn aros o amgylch er mwyn gallu cynnig eglurhad neu ofyn/ateb cwestiwn. Pan fyddwch yn symud rhwng grwpiau ond ddim o reidrwydd yn ateb yn uniongyrchol neu'n bresennol drwy gydol yr amser, maen nhw'n gwybod er hynny, eich bod yno ac wrth law. Felly dyna ffordd dda feddwl amdano yn nhermau o'i gymharu â'r hyn sy'n gyfarwydd i chi.

Y **cydamserol ac anghydamserol** sydd nesaf. Mae'r syniad yma o ddarlllediad byw yn gydamserol. Felly hefyd mae gweminar, rhywbeth seiliedig ar fideo, neu sgwrs os yw ar gyfryngau cymdeithasol e.e. gan ddefnyddio hashnod. Y syniad yw ei fod wedi ei osod ar amser penodol pan fod pawb yno. Anghydamserol yw'r syniad ei fod yn para ar draws cyfnod hirach a'i fod yn bwysig i'w ystyried oherwydd mae'n rhaid eich bod wedi clywed am flinder Zoom. Credaf, o safbwynt myfyriwr ac athro, gall fod yn eithaf blinedig i ddysgu yn y ffordd yma. Gall hefyd fod yn heriol yn nhermau mynediad i fyfyrwyr. Os ydych yn defnyddio dull cydamserol fel eich prif ddull o wirio'ch myfyrwyr, fe allai hynny allgau'r myfyrwyr hynny a allai ei chael hi'n anodd mynd ar-lein ar adeg benodol neu sydd yn wynebu heriau yn nhermau technoleg neu gysylltedd lled band. Felly mae hynny'n ystyriaeth bwysig o'r cydamserol a'r anghydamserol. Mae hefyd yn bwysig ystyried pa werth yw'r agwedd byw? Beth mae'n ei gynnig ar gyfer yr hyn rydych yn ceisio ei gyflawni ac yn ceisio ei addysgu? Credaf y byddwch yn canfod bod y rhan fwyaf o lwyddiant yn eich addysgu a dysgu yn anghydamserol ond bod y cydamserol yn cael ei ddefnyddio ar yr adeg gywir ac am y rhesymau cywir.

**Ffurf stori naratif** sydd nesaf. Nid dyma'r math o eiriau y byddwch yn ei ddefnyddio o amgylch cyrsiau. Fel arfer dyma'r math o ddeilliannau ac amcanion ond mae'n clymu gyda chymhelliad ac ymgysylltu a chynnydd. Allwch chi ddim adrodd stori eich cwrs ar-lein cystal ag y gallech yn y stafell ddosbarth. Felly mae meddwl ynglŷn â sut mae pethau'n perthyn a chymharu, gan feddwl am bethau yn nhermau naratif neu stori neu dechneg yn ffordd o feddwl am eich cwrs yn nhermau ateb cwestiwn. Gall hynny fod yn ffordd ddefnyddiol o feddwl am eich cwrs yn y fath fodd fel eich bod yn strwythuro'ch cwrs a'ch deunyddiau mewn ffordd sydd yn cyfleu'r syniad o ateb cwestiynau … ceir rhai pethau hynod o ddiddorol sydd yn cael eu rhannu ar-lein yn nhermau ffeithlun a grëwyd gan bobl yn dangos cynnydd drwy gwrs. Gall hynny fod yn ffordd ddefnyddiol o gael myfyrwyr i ddeall … dyma ble'r 'ych chi'n mynd, dyma'r perthnasau sy'n bodoli … mae'n bwysig ar-lein oherwydd nad oes gyda chi'r rhychwant o reidrwydd i allu cyfathrebu yn y ffordd y byddech yn ei wneud wyneb yn wyneb mewn ffordd ddigymell neu mewn ffordd yr ydych yn gyfarwydd â hi.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau

Mehefin 25, 2020

### Cyngor ar **bresenoldeb addysgu**

1. Rhowch **ddisgwyliadau clir** a chyfarwyddyd diamwys ar yr hyn mae disgwyl i fyfyrwyr ei wneud bob wythnos a pha mor hir y gallai gymryd iddyn nhw.

2. **Gwiriwch ar-lein yn rheolaidd**, rhowch fewnbwn ar yr hyn bydd myfyrwyr yn bostio, anogwch gyfranogaeth a gwiriwch ar gynnydd myfyriwr gan gynnig adborth.

3. Ystyriwch **gymysgedd o** ddysgu a gweithgaredd **cydamserol ac anghydamserol** yn ofalus.

4. Meddyliwch am **naratif, ffurf neu stori** eich cwrs, i ble'r yn ni'n mynd a sut fyddwn yn cyrraedd yno.

5. Dyluniwch **atebolrwydd** i mewn a dolenni **gwirio dealltwriaeth**.

**Atebolrwydd a dolenni adborth** sydd nesaf. Dyma'r syniad eich bod yn postio fideo ar-lein ond os eich bod yn wirioneddol awyddus i'ch myfyrwyr ei wylio, sut wyddoch chi eu bod nhw wedi gwneud hynny neu beidio?  Felly mae meddwl am y dolenni atebolrwydd hyn yn help mawr … techneg dda i'w ddefnyddio ynglŷn â defnyddio fideos neu ddarllen byddai cynnal cwis i fynd gyda nhw ac i fyfyrwyr eu cwblhau neu efallai fyfyrdod byr neu bostio trafodaeth. Gallwch ychwanegu ymateb byr yn mynegi eich barn am rywbeth yn y sgwrs, neu roi bys bawd i fyny i ddangos eich bod yn deall. Dyma'r math ddolenni mewn addysg ar-lein lle rych chi'n gwthio pethau allan ond yn ansicr os yw myfyrwyr yn ymgysylltu ag e'? Ydyn nhw'n bresennol? Felly mae meddwl am y dolenni hyn yn ddefnyddiol i chi yn nhermau deall sut mae pethau gyda'ch myfyrwyr. Gwnaed peth ymchwil ar gynnal cwisiau oedd yn mynd gyda fideos, a'r hyn a ddeallwyd o safbwynt myfyrwyr oedd bod cwis yn eu helpu i dalu sylw i'r fideo hwnnw.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

### Cyngor ar **bresenoldeb addysgu**

1. Rhowch **ddisgwyliadau clir** a chyfarwyddyd diamwys ar yr hyn mae disgwyl i fyfyrwyr ei wneud bob wythnos a pha mor hir y gallai gymryd iddyn nhw.

2. **Gwiriwch ar-lein yn rheolaidd**, rhowch fewnbwn ar yr hyn bydd myfyrwyr yn bostio, anogwch gyfranogaeth a gwiriwch ar gynnydd myfyriwr gan gynnig adborth.

3. Ystyriwch **gymysgedd o** ddysgu a gweithgaredd **cydamserol ac anghydamserol** yn ofalus.

4. Meddyliwch am **naratif, ffurf neu stori** eich cwrs, i ble'r yn ni'n mynd a sut fyddwn yn cyrraedd yno.

5. Dyluniwch **atebolrwydd** i mewn a dolenni **gwirio dealltwriaeth**.

Presenoldeb Gwybyddol yw'r peth nesaf ac efallai'r peth mwyaf dyrys. Dyma'r syniad sydd yn ymwneud â dysgu heriol gwirioneddol berthnasol a dysgu gwirioneddol ystyrlon a dwfn. Rwyf wedi sôn ychydig am hwn eisoes … yn aml bydd pobl yn dilorni'r syniad o gynnal cwis a dydyn nhw ddim yn hawdd i'w hysgrifennu o hyd. Ond maen nhw' ffordd dda o gael myfyrwyr i ystyried a thynu'r hyn maen nhw'n ei wybod ac yn deall am y pethau aethoch chi drostyn nhw. Maen nhw'n ffordd arbennig o dda, neu'n ffordd weithgar o ddysgu. Felly, meddyliwch yn ofalus ynglŷn â'u defnyddio, does dim rhaid iddyn nhw fod yn gwestiynau aml ddewis, gallan nhw fod yn gwestiynau dewis byr. Gellir ychwanegu elfen cyfoedion neu ei wneud yn fwy gweladwy, lle bydd cwestiynau ac atebion yn weladwy i fyfyrwyr eraill a gallant gyfrannu, maen nhw'n ffordd ddefnyddiol iawn o feithrin ychydig o astudiaeth o amgylch y dysgu.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

### Cyngor ar **bresenoldeb gwybyddol**

1. Defnyddio **cwisiau** (ymateb dethol ac ymateb wedi'i lunio) er mwyn i fyfyrwyr adlewyrchu ar eu dysgu ac archwilio'r hyn maen nhw'n ei wybod.

2. Ystyried sut mae technoleg yn cynnig cyfleoedd ar gyfer un i un ac un i nifer ac **adborth awtomataidd**.

3. Ystyried defnyddio **dylunio tuag yn ôl** er mwyn sicrhau bod cynnwys, gweithgareddau ac asesiadau i gyd yn ymochri i ddeilliannau dysgu ac yn osgoi "gwaith prysur".


4. **Gochelwch rhag gormod o ddarllen, gwylio a gwrando** – pa weithgareddau allwch chi eu dychmygu fydd yn cael myfyrwyr i weithredu'r hyn a ddysgon nhw i broblemau a phrofiadau?

Adborth yw'r peth nesaf, ac fe wyddom fod hyn yn hollol hanfodol ar gyfer y broses dysgu, a dyma le gall technoleg fod o werth gwirioneddol. Felly ystyriwch sut y gallwch ddatblygu adborth drwy gyfrwng gweithgareddau - gellir gwneud hynny'n broses awtomataidd fel y gallai myfyrwyr anfon adborth ar unwaith a gweithredu arno neu gellir ei ddefnyddio i gyfarwyddo nhw 'nôl i bethau y gallai fod angen iddyn nhw ail ymweld. Gall fideo hefyd fod yn ffordd dda o gynnig adborth mewn sesiwn lawn. Os oes gyda chi garfannau mawr o fyfyrwyr ar-lein a'u bod yn cynnal gweithgaredd, yna gall fod yn heriol i gynnig adborth unigol da iawn, felly gallai technoleg sydd yn cwmpasu fideo fod yn ddefnyddiol iawn wth gynnig adborth ar gyfer grŵp mwy. Felly mae meddwl am gyfleoedd ar gyfer cynnig adborth a'r ffordd y gall technoleg eich helpu yn bwysig iawn.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020




Enw’r model yma yw’r Dyluniad Tuag Yn Ôl ac mae’n ddefnyddiol. Fe ddylem ni fod yn dechrau gyda deilliannau ac yna’n meddwl ynglŷn â’r asesiadau ac yn defnyddio ymochredd adeiladol. Yr hyn rwy’n ei weld mewn addysg ar-lein yw ei fod weithiau’n hawdd osgoi’r holl stwff yma y dylech fod yn ei ystyried oherwydd bod y moddolrwydd a’r ffordd o addysgu mor wahanol.

Felly fe fydden i wir yn annog pobl i feddwl am hyn. I feddwl o ddifri ynglŷn â ble hoffem ni gyrraedd? Beth yw’r dystiolaeth am hynny? Ac yna dechrau meddwl am y profiad dysgu a’r cynnwys. Oherwydd gall creu cynnwys cymryd llawer o amser. Gall creu fideos ac ysgrifennu pethau gymryd lawer iawn o amser ac weithiau ni fydd e mor angenrheidiol â hynny. Efallai byddwch yn canfod y gallwch guradu pethau o'r we, neu fod yna ddeunyddiau eraill ar gael y galwch eu defnyddio. Bydd meddwl fel hyn yn eich helpu i beidio â gwastraffu amser, ac mae hyn yn mynd i fod yn werthfawr iawn.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

### Mathau o gynnwys a gweithgareddau ar-lein

**Cynnwys**

Fideo, sain, delweddau, diagramau, delweddiadau, animeiddio, testun, erthyglau, papurau, gwefannau/dolenni

**Gweithgareddau**

Cwisiau, fforymau trafod, blogiau, wikis, cyfnodolion, arolygon, cymylau geiriau, byrddau cydweithiol neu ddogfennau, mapiau meddwl, portffolios, fideos gan fyfyrwyr, adolygiad/asesiad cymheiriaid, efelychiadau, cyflwyniadau.


Modd gweithgar ac ymgysylltiol iawn o gael addysg yw dysgu ar-lein, felly gofalwch rhag syrthio i'r fagl hwnnw o feddwl fod yna fideo gwych neu bodlediad rhagorol neu ddarlleniad arbennig yma. Meddyliwch am weithgareddau sydd yn mynd law yn llaw â'r pethau hynny sydd yn eich tywys tuag at y deilliannau hynny rydych yn chwilio amdanyn nhw ar gyfer eich myfyrwyr er mwyn eu rhoi ar lwyfan ar gyfer llwyddiant.

Roeddwn i am roi ychydig o enghreifftiau gwahanol yno. Bydd rhai pobl yn gyfarwydd iawn gyda'r holl bethau hyn ond weithiau mae'n help i osod ychydig o bethau allan yn nhermau gweithgareddau a chynnwys a allai gynnau rhyw ystyriaeth ynglŷn â'r hyn y gallech ei wneud. NId yw'r rhestr yn un di-ben draw na thrwyadl ond mae'n helpu i roi syniad i chi o'r cynnwys a'r gweithgareddau.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020




- Dolenni Adborth ac atebolrwydd ar gyfer dosbarthiadau ar-lein - https://teachlikeachampion.com/blog/feedback-and-accountability-loops-for-online-classes/

- Da a Drwg ynglŷn â dylunio ar gyfer hygyrchedd - https://accessibility.blog.gov.uk/2016/09/02/dos-and-donts-on-designing-for-accessibility/

- Ynglŷn â Dylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu (UDL) - http://www.cast.org/our-work/about-udl.html

- 'Adeiladu pontydd i'r dyfodol: asesiad sy'n hyrwyddo dysgu wedi'r coronafirws - https://figshare.edgehill.ac.uk/articles/Prof_Sally_Brown_and_Prof_Kay_Sambell/12408968/2

- Dulliau amgen i Fideo-gynadledda: Sut y Bydd Addysgu Lled-Band Isel Yn Ein Hachub Ni Oll - https://www.iddblog.org/videoconferencing-alternatives-how-low-bandwidth-teaching-will-save-us-all/

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

## Cwestiynau

C: Sut allwn ni gynyddu medrau addysg ar-lein yn bersonol fel y gallwn fod yn y man gorau y gallwn i gynorthwyo ein myfyrwyr?

A: Dwi'n credu mai un o'r pethau hawsaf i'w gwneud yw cymryd cwrs ar-lein eich hunan. Oherwydd mae'n hynod o debygol eich bod wedi cael eich addysgu mewn prifysgol yn yr un ffordd 'ych chithau'n dysgu nawr. Felly o gewch chi'r cyfle i ddysgu ar-lein yna byddwch yn cael y cyfle i roi eich hun yn sefyllfa'r dysgwr a chael syniadau. Rhywbeth arall fydden i'n sicr o wneud yn nhermau'r dyluniad yw gweld yr hyn mae pobl eraill yn ei wneud, a pa addysgeg maen nhw'n ei ddefnyddio. Mae llwyfannau fel Future Learn ac Edx yn rhoi rhychwant i chi gymryd rhai cyrsiau am ddim, a'r rhychwant hefyd i'w brofi. Gall fod yn dda neu'n ddrwg, ond fe allwch ddysgu o'r drwg yn ogystal â'r da.

C: Beth yw dyfodol addysg ar-lein yn oes heddiw?

A: Rwy'n credu ei fod yn cynnig mwy o amlygiad i bobl. Mae nifer o sefydliadau wedi sôn am ddyheadau i ddefnyddio mwy o dechnoleg yn eu haddysgu felly mae hynny'n helpu'r sefydliadau hynny i symud yn agosach at gyflawni'r nod hwnnw. Mae'n mynd i fod yn lawer mwy derbyniol neu o leiaf fe gaiff ei brofi llawer yn fwy. Bydd rhai pobl yn dwli arno, a bydd rhai yn caledu eu barn a'u hawydd i ddysgu wyneb yn wyneb yn unig. Dwi'n credu fod hynny'n iawn - mae'n help, mewn gwirionedd i ddeall yr hyn rydych chi eisiau. Felly dwi'n credu ei fod yn codi'r math o amlygiad i fod ar-lein, a gallai hynny newid y ffordd mae prifysgolion a cholegau ac ysgolion yn cael eu strwythuro i raddau helaeth, ond mae hefyd siŵr o fod yn gwneud i ni deimlo ychydig yn fwy ynglŷn â gwerth dysgu wyneb yn wyneb. Credaf ein bod wedi dysgu mewn un ffordd am gyfnod llawer rhy hir heb ystyried pa mor fforddiadwy oedd hynny?

C: Allwch chi sôn yn fyr am y gwahaniaeth rhwng addysg ar-lein ac e-ddysgu?

A: Mae'n dibynnu ar bwy fyddi di'n sgwrsio â nhw mewn gwirionedd. Mae gen i gysylltiad rhyfedd gydag e-ddysgu. Felly nid yw hwn yn ateb diffiniol ond mae fy nghyswllt gydag e-ddysgu yn dysgu ar fy nghyflymder fy hunan nad yw'n ymwneud ag unrhyw arall yn gymdeithasol o gwbl, boed yn fyfyriwr neu athro. Felly mae e' bron fel math o gynnyrch a becynwyd eisoes. Ond mae diffiniadau pobl eraill o e-ddysgu yn debycach i'r hyn fydden i'n ei ddisgrifio fel dysgu ar-lein, sef yr hyn rwy' wëid sôn amdano heddiw. Gall terminoleg beri dryswch i bobl pan fod gennym ni gymaint o wahanol dermau am bob math o bethau.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

## Cwestiynau

C: Beth yw'r ffordd gorau o gefnogi myfyrwyr sydd ag Anghenion Addysg Arbennig ac sydd heb fynediad at neu fynediad cyfyng at ddyfeisiau?

A: Mae'n her ac efallai ei fod yn bwysig ein bod yn cyfeirio at y derminoleg eto. Rwyf wedi sgwrsio am addysgu ar-lein ond mae dysgu o bell lawer yn fwy sefydledig. Felly efallai y gallech gynnig peth stwff corfforol ar gyfer myfyrwyr pe bai dyfeisiau neu gael mynediad yn broblem. Gallai hyn olygu meddwl am fodd o gael y deunyddiau i fyfyrwyr, ond mae hyn yn dibynnu ychydig ar ba ddyfeisiau sydd gyda nhw eisoes. Does dim rhaid cyfryngu addysg o bell drwy dechnoleg, fe allech gynnig rhywbeth ac yna meddwl ynglŷn â sut y byddech wedyn yn ymgysylltu â'r myfyrwyr ynglŷn â sut fyddan nhw'n defnyddio'r deunyddiau hynny a sut fyddan nhw'n dilyn hynny a rhoi adborth. Felly, peidiwch â bychanu pŵer sgyrsiau syml, seiliedig ar destun ar gyfer ymgysylltu â dysgu.

C: Sut allwn ni helpu myfyrwyr/dysgwyr swil i ymgysylltu? A sut fyddech chi'n eu cael nhw i deimlo'n hyderus?

A: Mae angen deall ychydig bach ynglŷn â pha rwystrau gallai fodoli. Yn aml, mae addysg ar-lein yn cynnig ffordd lle gall myfyrwyr mwy swil fod yn fwy cyfforddus. Mewn ystafell ddosbarth, gallwch ddod ar draws pobl sydd yn hynod o gyfforddus yn siarad ac yn gofyn cwestiynau, ac weithiau bydd y myfyrwyr swil yn ffynnu mewn awyrgylch ar-lein oherwydd nad yw'r pwysau hynny arnyn nhw. Gallant feddwl am yr hyn maen nhw'n bwriadu ei ddweud gan nad oes raid iddo gael ei ddweud ar unwaith. Felly, mae rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ateb yn anghydamserol yn hynod o bwysig, oherwydd bod gorfodaeth i gyfrannu ar foment penodol yn gallu peri'r math o bryder fyddai'n atal myfyrwyr rhag cyfrannu. Felly, meddyliwch am gynnal sgyrsiau mwy araf, meddyliwch am ddefnyddio byrddau trafod lle gall myfyrwyr swil ystyried eu hymatebion yn ofalus. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe baech yn meddwl am dechnolegau sydd yn galluogi anhysbysrwydd.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

## Cwestiynau

C: Pryd mae'r adeg orau i ddefnyddio gweithgareddau cydamserol ac anghydamserol? Er enghraifft, gyda dysgwyr sy'n oedolion a fyddech chi'n tueddu i ddefnyddio cydamserol ar gyfer mwy o drafodaeth a gwneud math o 'ystafell ddosbarth pen i waered' gyda pheth gwaith dosbarth o flaen llaw?

A: Fe allai hynny fod yn werthfawr iawn. Fe ddywedwn hefyd y gallai'r drafodaeth fod yr un mor gyfoethog wrth ei gynnal yn anghydamserol ag y gallai fod mewn modd cydamserol. Mae'n heriol i feddwl am y cyfuniad oherwydd nid yw'n gydamserol yn unig - mae hefyd yn wyneb yn wyneb. Does dim cymhareb berffaith neu gydbwysedd perffaith ynglŷn â sut mae gwneud hyn. Mae'n fwy i wneud â'r hyn y gwyddom sy'n dda ar gyfer addysg. Felly mae pwysigrwydd perthynas myfyrwyr gyda chi a phwysigrwydd perthynas myfyrwyr gyda'i gilydd yn hanfodol - felly gall y gydran byw gael effaith sydd yn ei luosogi bron. Felly os feddyliwch chi am berthynas myfyrwyr gyda'i gilydd yna gallech ddefnyddio'r ystafelloedd encilio i feithrin hynny. Gall helpu myfyrwyr i weld a phrofi elfen fyw helpu yn nhermau eu perthynas a'r berthynas fyddwch chi'n ei ddatblygu gyda nhw drwy'r drafodaeth hwnnw, drwy'r math hwnnw o ddull. Gallai gwneud hwn y ffordd arall weithio ar-lein hefyd ac mae hynny'n ddefnydd da o'r cydamserol. Ond mae hefyd yn bwysig i feddwl am yr egwyddorion ehangach ynglŷn â'r hyn sydd yn gwneud profiad dysgu da a sut gall bod yn bresennol helpu gyda hynny.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020.

## Cwestiynau

C: Beth yw ystafelloedd encilio a sut mae eu defnyddio?

A: ‘Stafelloedd encilio - gallwn sefydlu nifer o ystafelloedd gwahanol ar y sesiwn zoom yma ac fe allwn glustnodi nifer o bobl i ddefnyddio’r ystafelloedd hwnnw. Felly, pe baem ni eisiau cael grwpiau o bump o fyfyrwyr, gallwn sefydlu hynny a dosbarthu myfyrwyr i ystafelloedd ac yna bydden nhw’n mynd i’r ystafell hwnnw lle byddai’r cyfan yn cael ei gynnwys. Gallai’r pum person hwnnw yn yr ystafell rannu sgriniau, defnyddio’u meicroffonau, defnyddio’u fideos, felly mae’n ddefnyddiol ar gyfer nifer o bethau gwahanol. Techneg arall y gallwch ei ddefnyddio yw ‘Meddyliwch, parwch, rhannwch,’ … rhannu myfyrwyr mewn i barau gan ddefnyddio ystafelloedd encilio i feddwl am gwestiwn ac yna dod nôl i’r brif ystafell a rhannu. Rwyf hefyd wedi ei weld yn cael ei ddefnyddio o amgylch senarios seiliedig ar broblem … lle bydd y darlithydd yn dweud rhywbeth (gan amlinellu tasg), ac yna’n rhannu myfyrwyr yn grwpiau ac yn rhoi awr neu ddwy iddyn nhw drafod a chynhyrchu rhywbeth gan ddod nôl i’r brif ystafell wedyn a’i rannu. Felly dyna’r ffyrdd y gallwch ddefnyddio ‘stafelloedd encilio.

C: Ydy hi’n bosib recordio ystafelloedd encilio unigol? (neu ydy hynny’n dibynnu ar ba lwyfan yr ydych yn ei ddefnyddio?)

A: Dwi’n credu na allwch chi recordio mewn ystafelloedd encilio’r rhan fwyaf o adegau. Alla i ddim siarad ar ran pob math o dechnoleg ystafell encilio ond dyw e’ ddim wedi bod yn bosib i fi pan dwi ‘di ceisio gwneud hynny.

C: Beth yw effeithiau iechyd meddwl gweithio yn y modd yma a beth yw’r ymchwil? A all e’ effeithio’n negyddol ar athrawon? Myfyrwyr? Plant?

A: Mae’r sefyllfa wedi COVID yn arbennig iawn - yn sefyllfa unigryw, gyda dysgu o bell ar frys. Felly rhaid i ni fod yn ymwybodol iawn o iechyd meddwl pawb. Gyda phob parch i addysg ar-lein, ceir rhai pethau, fel yr amser a gaiff ei dreulio ar-lein … bydd nifer ohonom wedi clywed am flinder Zoom. Felly gall yr agwedd honno o ddysgu ar-lein achosi ychydig o straen, yn enwedig os ydych chi’n fyfyriwr heb le tawel i astudio neu nad oes gyda chi’r dechnoleg a bod disgwyl i chi fod mewn man arbennig ar adeg arbennig a chymryd rhan mewn dysgu. Fell fe all hynny gael effaith. Yn nhermau iechyd meddwl ar gyfer athrawon, mae hyn yn ymwneud â disgwyliadau … gall rhai o’r strategaethau y soniais amdanyn nhw ynghynt helpu gyda hynny. Mae cofio nad oes rhaid i chi ymateb a bod yn bresennol yr holl amser - gallwch setlo mewn i hynny’n ddiofyn a gosod y disgwyliad eich bod ‘ymlaen’ o hyd - a dyw hynny ddim yn dda i unrhyw un mewn gwirionedd.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

## Cwestiynau

C: Ai ymarfer da yw gofyn i fyfyrwyr ddefnyddio apiau sydd yn wahanol i'r rhai a gaiff eu hargymell gan y brifysgol (neu eich cyflogwr neu awdurdod lleol)? Oherwydd mewn rhai llwyfannau, gall defnyddio cwisiau er enghraifft, fod yn fwy anodd nac mewn llwyfannau eraill - felly beth yw'r peth gorau i'w wneud o safbwynt arfer effeithiol?

A: Mae yna fwy o bethau i;w hystyried nac ymarfer effeithiol. Un o'r rhesymau pam fod gan brifysgolion (cyflogwyr / awdurdodau lleol) bwll penodol o dechnolegau yw eu bod wedi cynnal profion diwydrwydd priodol ar y technolegau hynny. Felly er bod yna rai achosion lle y gallwch fabwysiadu technoleg trydydd parti yn ddidrafferth, mae'n bosib y byddech ar dir go simsan pen a baech yn defnyddio'r technolegau a gefnogir oherwydd pethau fel data, GDPR, ac ystyriaethau tebyg.

Yn nhermau arfer da, byddai'n rhinwedd i ystyried technoleg amgen oherwydd eich bod yn dymuno cael technoleg sydd yn cefnogi eich dysgu ac addysgu. Fodd bynnag, gall ddechrau mynd yn ddryslyd i fyfyrwyr sydd yn defnyddio amryw o bethau gwahanol, ac sydd yn gofyn ar ddefnyddwyr i lawr lwytho ap neu feddu ar system weithredu arbennig. Felly unwaith eto, mae'n bwysig i roi eich hunan yn sefyllfa'r myfyriwr oherwydd os oes problemau o safbwynt myfyriwr na wnaethoch chi ei hystyried yn flaenorol, yna does dim ots pa mor dda gallai'r dechnoleg fod, caiff hynny ei negyddu oherwydd gallai'r cyfan fynd yn draed moch. Credaf fod prifysgolion yn gynyddol yn ystyried, yn enwedig yr ochr sgwrs gymdeithasol a chyfathrebu, defnyddio ymagwedd gymysg - felly (prifysgolion yn y DG) yn defnyddio pethau fel amgylchedd dysgu rhithwir ond hefyd defnyddio pethau fel Microsoft Teams yn gyfeiliant iddyn nhw. Felly yn fyr, credaf na ddylid gorlwytho myfyrwyr a'u llethu yn nhermau mwy o ddewisiadau gwaith a dwi o'r farn y dylid meddwl yn nhermau eich sefydliad a'r maglau posib y gellid disgyn iddyn nhw wrth fabwysiadu technoleg sydd ychydig tu allan i'r gyfres hwnnw neu sydd heb gefnogaeth ganolog.

O safbwynt ysgol, mae'n beth tebyg pan fydd yna lawer o lwyfannau ar gyfer plant a theuluoedd i geisio eu mordwyo, a gall hynny fod yn llethol. Cais a wnaed gan rieni'n aml yw y dylid cynhyrchu llawlyfr syml nid yn unig ar gyfer y plant / disgyblion ond hefyd ar gyfer rhieni, i'w helpu i ymgysylltu a cheisio dysgu a dod ychydig yn fwy cyfarwydd. Ceir nifer o wahanol lwyfannau gwahanol ac apiau mae ysgolion yn ceisio arfer â nhw ac fe all hynny fod yn heriol hefyd, yn enwedig os yw'ch plant yn teimlo fod n 'rhaid' iddyn nhw eu defnyddio ar gyfer gwaith ysgol

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

## Cwestiynau

C: A yw'n bosib cael ymgysylltiad gan rieni mewn dysgu ar-lein ar yr un pryd â'r plant er mwyn i;r rhieni allu helpu? Oes yna ffordd well o allu ymgysylltu rhieni ar-lein?

A: Fel rhiant, gallaf werthfawrogi rhai o'r mathau o heriau. Felly mae hwn yn aml yn gysylltiedig â pha mor gyfarwydd yw pobl gyda thechnoleg a'u hyder o'i amgylch. Gellid fod yna lawer o gyfleoedd ar gyfer rhai gweithgareddau wedi eu rhannu a allai helpu rhieni feddwl am y medrau sydd ganddyn nhw / sydd eu hangen arnyn nhw a sut allan nhw fod o gymorth a chefnogi eu plant. Fel rhiant plentyn 9 mlwydd oed, yr hyn sydd wedi fy rhyfeddu yw'r gallu yma i fy nghyfarwyddo gyda pheth dysgu ar-lein … bu'n eithaf rhyfeddol. Credaf fod plant yn aml yn fwy hyderus wrth geisio pethau newydd a gallant fod yn fwy sythweledol a hapus i roi cynnig ar rywbeth a'i ddeall. Fe wnaeth fy mab ddarganfod sut oedd defnyddio ystafelloedd encilio cyn i fi wneud ac yna fe ddysgodd finnau! Felly dwi'n credu fod yna bethau gwirioneddol ddiddorol i'w hystyried ynglŷn â'r pethau y dychmygwn gall plant eu gwneud a'r hyn na allan nhw wneud.

Ceir nifer o gymhlethdodau gyda gwahanol lwyfannau a'r hyn sydd gan gartrefi fynediad ato. Ond credaf fod yna gyfleoedd yn sicr i gynnig profiadau dysgu ar y cyd a allai fod yn fuddiol iawn. Er gwaetha'r ffaith bod rhieni yn brysur iawn, rwy'n ymwybodol fod yna lawer o rieni fyddai'n hoff o'r cyfle i ddatblygu gyda'u plant. Agwedd arall yw meddwl am ddylunio a meddwl ynglŷn â sut allech chi ddylunio rhywbeth y byddai'n rhaid i fyfyriwr ei wneud ac yna'i drafod gyda'i rieni? Meddwl felly am ddylunio er mwyn annog cwestiynu a thrafodaeth rhwng myfyrwyr a rhieni.

Dwi'n credu mewn addysg ar-lein, bod cyfleu nod ac ystyr y pethau ych chi'n gofyn i'r myfyrwyr ei wneud yn bwysig iawn - i ba raddau ydych chi'n egluro pam ei fod yn bwysig iddyn nhw wneud rhywbeth? I ba le mae hwn yn eu cymryd? Beth yw'r gwerth? … mae hynny'n bwysig ar wahân i'r sefyllfa hwn.

C: Sut fyddwn ni'n gweld hwn yn gweithio gyda disgyblion iau?

A: Mae nifer o'r un egwyddorion yn rhai craidd oherwydd eu bod yn ffyrdd addysgol da o feddwl am ddysgu ac addysgu. Felly, tra bod yr ystyr a'r tôn a'r ffordd y byddwn yn egluro pethau'n wahanol yn ddibynnol ar oedran y plant, bydd yr egwyddorion sylfaenol ynglŷn â meddwl am gynllunio dysgu, bod yn hawdd mynd atoch … adeiladu'r berthynas hwnnw … mor bwysig. Mae hynny'n perthyn yn gryf hefyd i'r ymchwil diweddar a gafwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a gyfeiriodd yr angen i blant/disgyblion gael cyswllt wrth ddysgu gyda'u hathrawon a'u ffrindiau. Felly mae meddwl ynglŷn â sut gellir hwyluso'r gweithgareddau hynny'n hanfodol.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

## Cwestiynau

Mae'n ddiddorol bod llawer o gydweithwyr yn sgwrsio am yr hyn y gallai rhieni ei wneud, sut y gallai rhieni helpu … efallai gyda deunyddiau i'w cefnogi, i fentora eu plant fel dysgwyr. Ond gan gydnabod hefyd eithaf cymaint nad yw rhai o'r ffyrdd hyn o weithio wedi cael eu sefydlu a bod angen cefnogaeth sylweddol arnyn nhw. Gan gydnabod hefyd na fydd llawer o rieni yn dymuno bod mewn sefyllfa i allu helpu o gwbl. Felly mae'n bwysig i feddwl yn greadigol iawn ynglŷn â'r gwahanol ddewisiadau y gellir bod ar gael i blant oherwydd na wyddom beth yw amgylchiadau a sefyllfaoedd gwahanol blant. Yn yr un modd, wyddwn ni ddim am ein myfyrwyr. Mae gen i fyfyrwyr sydd yn sydyn yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddyn nhw fod yn ofalwyr yn ystod y cyfnod hwn … mae yna bob math o bethau sy'n rhaid i ni eu hystyried pan fyddwn yn meddwl sut mae defnyddio dysgu ar-lein.

C: Allwch chi argymell rhai gwefannau da gyda mynediad a chyrsiau ar-lein?

A: Future Learn, Edx

C: Beth yw'r gwahaniaethau wrth gymharu addysgu wyneb yn wyneb a dysgu ar-lein gan feddwl am y gwahaniaeth mewn amser. Felly, ydy hynny'n golygu y dylai fod yna fwy o weithgareddau a chynnwys mewn sesiwn ar-lein? Neu lai oherwydd bod yr amser yn gweithredu'n wahanol?

A: Y peth pwysicaf yw bod y gweithgareddau wedi eu hymuno â'i gilydd … maen nhw'n perthyn i'w gilydd. Credaf y gallai sesiwn ar-lein gynnig mwy o weithgarwch. Gallai gynnwys ystafelloedd encilio, gallai gynnwys pario. Yr ystyriaeth bwysicaf yw gofyn i ba raddau dylai sesiwn ystafell ddosbarth neu ddarlith fod yn enghraifft o rywun sy'n mynd dros stwff mewn sleidiau yn erbyn y graddau y dylai fod yn rhyngweithiol? Rhaid cael plethiad o'r ddau. Dwi ddim yn credu fod yn gymhareb arbennig chwaith a does dim rhaid i sesiwn ar-lein, sesiwn byw, fod yn awr neu'n 50 munud o hyd. Wyddoch chi beth? Jyst oherwydd ei fod e'n fyw, dyw hynny ddim yn golygu fod yn rhaid iddo lynu at fod yn ychwanegiad cyfarwydd o ran amser y byddwn yn troi ato'n ddiofyn. Gallai fod yn hanner awr, neu'n ugain munud ac yna cynnal gweithgaredd a gaiff ei wneud ar-lein ac yna fe ddôn nhw nôl.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

## Cwestiynau

C: Beth mae ymchwil yn ei ddweud ynglŷn ag effaith ymgysylltiad os yw pawb wedi diffodd eu camerâu?

A: Dwi heb weld unrhyw ymchwil ynglŷn â phobl yn diffodd eu camerâu neu beidio. Dwi ddim yn credu fod galluogi fideo yn llesteirio ymgysyllted. Heb gamerâu, gall y drafodaeth a'r sgwrs drwy destun fod yn anhygoel - wedi ymgysylltu'n llwyr. Felly, does dim rhaid i ddiffodd fideo effeithio ar ymgysylltiad. Gall galluogi fideo greu problemau yn nhermau ymgysyllted, oherwydd os feddyliwn ni am fyfyrwyr swil, a fyddai hynny'n rhwystr arall i'w hymgysylltiad? A fydden nhw'n teimlo'n hunanymwybodol ofnadwy? Yn enwedig, os ydyn nhw mewn senario lle nad oes gan y tŷ maen nhw' byw ynddo le tawel i astudio neu eu bod yn teimlo cywilydd am eu hamgylchoedd … sut fyddai hynny yn eu helpu i deimlo'n hyderus? Felly mae 'na rai ystyriaethau ynglŷn â hynny. Dwi heb weld unrhyw broblemau yn nhermau ymgysylltiad os nad yw fideo'n cael ei ddefnyddio.

C: Ai ynglŷn ag ail-feddwl mae hyn? Am beidio bod yn ddewis deuaidd rhwng ar-lein neu beidio, ond yn hytrach meddwl amdano fel ffordd o addysgiadol o weithio, ffordd newydd o weithio.

A: Dyna un o'r agweddau o weithio mewn addysg ar-lein rwy'n ei fwynhau.  Oherwydd yn aml bydd pobl wedi dysgu mewn ffordd arbennig a mabwysiadu ffordd arbennig o ddysgu oherwydd mai dyma'r peth i'w wneud. Felly mewn gwirionedd, mae'r math o sgyrsiau mae addysg ar-lein yn ei annog a'r ffordd mae'n agor cwestiynau fel … beth yw gwerth wyneb yn wyneb? Beth yw gwerth ar-lein? Beth yw nod hwn i gyd? Sut ydym ni'n meddwl am y pethau hyn i gyd? Dyna sgwrs gyfoethog a hynod ddiddorol, Dwi'n credu fod hynny'n gadarnhaol iawn - nid i gael gweld addysgu ar-lein yn unig ond i fod yn rhan o gwestiwn a gafodd ei orfodi. Dwi'n credu fod hynny'n werthfawr iawn i ni ein bod yn cael y math hwnnw o drafodaeth.

C: Dyw rhai ysgolion ddim yn caniatáu dysgu byw o gwbl ond mae'r cyflwyniad wedi fy helpu i feddwl yn fwy eang ynglŷn ag addysg ar-lein a'r hyn y gallai ac y dylai fod. Dwi o'r farn ei fod yn bwysig iawn oherwydd er y bydd yna bob mathau o baramedrau a chyfyngiadau allanol yn bodoli, a phethau fydd yn rhaid i ni eu mordwyo, mae yna ffyrdd creadigol o feddwl o amgylch yr hyn gallai hwn fod a'r amrywiaeth o ffyrdd y gallwn geisio ymgysylltu â myfyrwyr a phlant o bellter.

A: Ie, un o'r maglau hwnnw mae'n hawdd syrthio iddyn nhw yw  credu bod dysgu yn digwydd ar-lein. Dyw dysgu ddim yn digwydd ar-lein. Mae'n digwydd yma [pwyntio i'w ben] …. Felly meddyliwch am ba bethau allech chi eu gwneud gyda'ch dysgwyr? Meddyliwch am lunio gweithgareddau o amgylch y dysgwr a'i amgylchedd a deialog. Llwyfan yn unig yw ar-lein. Yr hyn sy'n allweddol yw'r modd y byddwch yn cyfathrebu eich bwriad ynglŷn â pham mae'n bwysig, a sut fyddwch chi'n gosod a sefydlu eich gweithgareddau, a bod gyda chi adborth.

# Gweminar IPDA Cymru


## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

## Cwestiynau

C: Sut allwn ni ymgysylltu a dysgwyr mewn cymunedau gwledig lle gallai fod llai o fynediad at y rhyngrwyd, at… drydan. Beth allwn ni ei wneud, pa ddewisiadau sydd ar gael yn y cyd-destunau hynny?

A: Ar lefel egwyddor, dyma ffeithlun gwych ar hwn.




Mae'n sôn am uniongyrchedd isel a lled band isel, ac uniongyrchedd uchel a lled band uchel. Felly mae'r gweminar hwn yn uchel o ran uniongyrchedd ac yn uchel o ran lled band. Ry'ch chi yma am 2:00 o'r gloch (BST) ac mae gyda chi eich fideo ymlaen ac ry'ch chi'n gallu fy nghlywed. Gallai uniongyrchedd isel a lled band isel fod yn rhywbeth fel e-bost neu sgwrs ar ffurf testun. Felly dyna'r math o bethau sydd yn bwysig i'w hystyried yn nhermau cymunedau gwledig lle gal cysylltedd fod yn anodd, neu gallai cael mynediad at y dechnoleg fod yn anodd. Gall cyfnodau cynnar addysg o bell fod yn seiliedig iawn ar ffurf negeseuon testun ac wrth ystyried dylunio dysgu mae'n bosibl i feddwl am ddefnyddio llawer o stwff sydd yn seiliedig ar sain yn hytrach na fideos … er mwyn lleihau lled band. Mae yna lawer o bŵer mewn trafodaethau sy'n seiliedig ar negeseuon testun, gyda chithau'n rhannu'r ry'ch chi am i fyfyrwyr wneud ac yn cynnig adborth a chefnogaeth. Ystyried atebolrwydd a pherthynas. Felly peidiwch â bychanu gwerth trafodaeth sy'n seiliedig ar negeseuon testun am ystod gyfan o agweddau gwahanol ar addysg.

# Gweminar IPDA Cymru

## Addysg Ar-lein yn ystod Amserau Newidiol

Mehefin 25, 2020

## Cwestiynau

C: Wyddoch chi os oes yna unrhyw faterion ynglŷn â gwarchod data os gaiff darlithiau ar-lein eu recordio ac yna'u rhannu'n anghydamserol?

A: Gallaf siarad yn ôl cyd-destun prifysgol oherwydd byddai rhai o'r trafodaethau hynny wedi ymwneud â recordio darlithiau. Felly rwy'n credu y bydd yna bolisïau mewn lle yn y rhan fwyaf o gyd-destunau prifysgol. Yn nhermau materion posib, dwi'n tybied byddai'r rheiny mewn perthynas ag addysg ar-lein, ei fod e'n gêm sy'n ymwneud â thîm … meddwl am bobl yn eich sefydliad a allai gyfeirio at y pryderon hynny. Meddwl am y pethau cywir … bydd eich llyfrgellwyr yn wych am hynny. Felly dyna le gall pobl dynnu ynghyd a'i ddatblygu'n wirioneddol fel gêm i dîm - yn tynnu ar bobl sydd a chanddynt arbenigedd gwirioneddol yn eich sefydliad er mwyn eich helpu.